

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd trwy gyfrwng Microsoft Teams ar nos Fercher, Gorffennaf 29^{ain}, 2020 am 6.30 yh

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	D. Nicholas	P.H. Roberts
	W.D. Evans	S.J. Roberts	B. Rees
	Mrs K.D. L. Davies	Mrs Ll. Hindley	Mrs A. Evans
	Mrs C. Thomas	I. Rh. Llewelyn	Mrs J.E. Collins
	Mrs S.E. Thomas		

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	D. Hopkins	Mrs Ll. Latham	C.J Harris
	E.W Nicholas		

735.

Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant

736.

COFNODION

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fehefin 24^{ain}, 2020.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fehefin 24^{ain}, 2020.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd yna unrhyw fater i'w godi; nid oedd, felly **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir. **Penderfynwyd** hefyd gadarnhau argymhellion y pwyllgor.

737.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Fehefin 24^{ain}, 2020

a) Cofnod 727(c) – roedd angen gosod thermostat a thwymwr tanddwr newydd er mwyn trwsio'r boeler ym mhafiliwn Saron. Roedd y gwaith wedi'i wneud gan Amman Heating Services am bris o £450, i gynnwys TAW.

Penderfynwyd y dylid talu'r anfoneb.

b) Cofnod 727(i) – Diffibrilwyr – Roeddy Clerc wedi ysgrifennu at Wasanaeth Ambiwlans Cymru a *MyCariad*, ond nid oedd yr un ohonynt yn gallu rhoi manylion ynghylch y defnydd o'r teclynnau. Ar hyn o bryd mae'r holl ddiffibrilwyr wedi'u cofrestru gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, ond yn y broses o gael eu trosglwyddo i 'The Circuit', sef rhwydwaith diffibrilwyr cenedlaethol sy'n cysylltu'r rhwydwaith diffibrilwyr gyda phob gwasanaeth ambiwlans unigol.

Mae'r Clerc yn aros am gadarnhad bod y diffibrilwyr yn cael eu trosglwyddo, yn awtomatig, i'r system newydd. Mae'n debygol y bydd gan bob diffibriliwr warcheidwad, ac, o bryd i'w gilydd, bydd rhaid i'r gwarcheidwad hwnnw adrodd yn ôl ynghylch statws y teclyn. Bydd hyn yn sicrhau bod y diffibriliwr yn gweithio'n iawn ac ar gael i'w ddefnyddio. Mae Gwasanaeth Ambiwylans Cymru wedi cadarnhau nad oes angen gwasanaethu'r unedau gan eu bod yn hunan-wirio yn reolaidd, ac amlygir hyn gan ddangosydd a leolir ar y teclyn.

GOHEBIAETH

738.

Adroddiadau'r Heddlu ynghylch troseddau

Llandybie – y 90 diwrnod diwethaf

Twyll	1
Lladrad	1
Cyfathrebu Maleisus	2
Ymysod	5
Aflonyddu	6
Tanau Bwriadol	1
Stelcio	1

Saron (gan gynnwys Capel Hendre) – y 90 diwrnod diwethaf

Difrod Troseddol	5
Lladrad	2
Cyfathrebu Maleisus	1
Troseddau yn ymwneud â chyffuriau	2
Affrae	1
Ymysod	4
Ci peryglus	1
Aflonyddu	2
Ceiso Bwrglera	1
Mynd â cherbyd heb ganiatâd	1
Y drefn gyhoeddus	1

Ni dderbyniwyd unrhyw fanylion ynghylch y sefyllfa yn ward Penygroes.

739.

Derbyniwyd yr eitemau o ohebiaeth canlynol, ac fe'u hanfonwyd at yr Aelodau cyn y cyfarfod. **Penderfynwyd** nodi'r eitemau.

- i) Cais am gefnogaeth Ôl-Covid 19 oddiwrth Llywodraeth Cymru
- ii) Cyllido prosiectau amgylcheddol yn y gymuned

740.

Cau'r ffordd dros dro yn Heol Waunfarlais, Llandybie

Derbyniwyd yr wybodaeth oddiwrth Cyngor Sir Caerfyrddin y bydd rhan o Heol Waunfarlais, Llandybie ar gau am 3 diwrnod o Awst 12^{fed}, 2020 ymlaen i alluogi Dŵr Cymru i gynnal gwaith hanfodol. Gosodir gwyradau addas yn eu lle.

741.

Pafiliwn parc Penygroes

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ysgifennu atynt i hysbysu'r Aelodau bod pafiliwn Canolfan Gymunedol Penygroes wedi'i rhoi yn ôl yn nwylo'r Cyngor Sir. Roedd nifer o fudiadau wedi dangos diddordeb mewn prydlesu'r pafiliwn ond, cyn i'r Cyngor Sir gynnal unrhyw drafodaethau pellach, roeddent wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned os oedd ganddo unrhyw ddiddordeb yn prydlesu'r eiddo.

Penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i'w hysbysu nad oedd y Cyngor Cymuned am brydlesu'r adeilad er gwaethaf y byddai peth budd yn dilyn o wneud hynny, yn enwedig o ran bod yn gallu rheoli unrhyw denant trwy drefnu is-brydles. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai parc Penygroes ar ei ennill o negodi prydles hir-dymor gydag unrhyw brydleswr newydd, a byddai'r Aelodau yn hoffi cynnig mewnbwn i'r trafodaethau ac i benodiad y tenant newydd, pe byddai hynny'n bosibl. Dylid trafod gyda'r prydleswr newydd yr angen am arwyddion dwyieithog.

Yn yr hir-dymor, dylid ystyried ffurfio pwyllgor ar y cyd, i gynnwys Aelodau ward Penygroes a'r tenant.

742.

Diddymu ffonau talu BT

Roedd BT wedi cyhoeddi ymgynghoriad i ddiddymu saith ffôn talu lleol nad ydynt wedi gweld unrhyw ddefnydd dros y 12 mis diwethaf. Mae'r ffonau talu wedi'u lleoli yn :-

Derwydd
Y Ffordd Fawr, Llandybie
Heol Blaenau, Llandybie
Sgwâr Saron
Sgwâr Capel Hendre
Heol Cwmfferws
Heol Penybanc

Penderfynwyd bod yr Aelodau yn adolygu'r blychau ffôn yn eu wardiau ac yn ymchwilio, gyda'r gymuned leol, i weld os oes ganddynt unrhyw awydd i fabwysiadu ciosg am £1 yr un. Gofynnwyd i'r Clerc i ymateb i'r ymgynghoriad mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r adborth a dderbynir oddiwrth y Cynghorwyr, a chytunwyd bod yr holl ffonau talu ar draws y safleoedd yn cael eu diddymu.

743.

Gilfach Iago

Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Celtic Energy a staff Cyngor Sir Caerfyrddin ar Orffennaf 20^{fed}, 2020. Roedd y Cynghorydd Mrs K.D.L Davies, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, wedi hysbysu'r Aelodau bod y gwaith sydd ei angen i adeiladu'r llwybrau ceffyl wedi'i wneud yn eglur, a'i gostio. Mae'r trafodaethau diweddar wedi canolbwyntio ar y mecanwaith cyllido sydd ei angen i osod y llwybrau ceffyl a'r hawliau tramwy cyhoeddus, a chynhelir cyfarfod pellach ar Awst 13^{eg}, 2020.

Roedd y Cynghorydd Sir D. Thomas wedi hysbysu'r aelodau bod y Cyngor Sir o'r farn bod y trafodaethau wedi bod yn fuddiol, a bod cyfanswm y gost o ail-osod y llwybrau ceffyl a'r llwybrau troed, sef £350,000, wedi'i gyflwyno a'i gytuno.

Nid oedd y Cyngor Sir wedi trafod unrhyw gronfa budd cymunedol, ac wedi hysbysu'r Aelodau, yn flaenorol, y byddai angen gwneud hyn drwy gynnal trafodaethau ar wahan rhwng Celtic Energy a'r Cyngor Cymuned. **Penderfynwyd** bod y Clerc yn ysgrifennu at Celtic Energy i drefnu cyfarfod rhwng y Cynghorwyr Sir, Mrs K.D.L Davies a D. Thomas a chynrychiolwyr Gweithgor Gilfach Iago.

744.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Mae preswilydd lleol wedi gwneud cwyn i dîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin, ac mae'r tîm yn ymchwilio'r llwybrau troed canlynol:

1) Llwybr Troed 51/55 Heol Norton i Heol y Gât, Penygroes

Roedd yr arwyddion ger y mynedfeydd ar ddau ben y llwybr troed wedi'u tynnu i ffwrdd, ac roed y fynedfa o Heol Norton wedi'i chau gan ffens. Roedd y fynedfa o Heol y Gât wedi'i chau gan ffens, roedd yr arwyddion wedi'u tynnu i ffwrdd a seiliau concrit wedi'u gosod. Roedd y preswilydd hefyd wedi cwyno i'r Adran Orfodi Cynllunio fel ei bod yn gallu ymchwilio i'r rheswm dros osod y seiliau concrit hyn.

2) Llwybr Troed 51/51 Heol y Gât i'r briffordd rhwng Penygroes a Heol Blaenau

Bod y llwybr ger y fynedfa o Heol y Gât wedi'i blocio yn rhannol gan gerbydau

3) Llwybr Troed 51/117, Heol Norton - Gorsddu

Roedd yr arwyddion wedi'u tynnu i ffwrdd a'r llwybr troed wedi'i gau gan ffens i'r ddau gyfeiriad.

Cofnodwyd hyn er gwybodaeth yn unig.

b) Cytundebau Cynnal a Chadw'r Llwybrau Troed

Roedd toriad cyntaf y cytundeb cynnal a chadw'r llwybrau troed wedi'i gwblhau'n foddhaol, a derbyniwyd anfonebau o £444 oddiwrth L Stamp, ac am £1905 oddiwrth Dynevor Tree Services. Cytunwyd gwneud taliad ychwanegol o £870 i Dynevor Tree Services am y gwaith o glirio canghennau mawrion oddiar 7 o'r llwybrau troed; roedd y canghennau naill ai'n blocio'r ffordd neu mewn perygl o gwmpo ar y llwybr troed.

c) Parc Penygroes

1) Roedd y rhwydi pêl-fasged ym Mharc Penygroes wedi'u fandaleiddio ac, yn unol â'r cyngor a roddwyd gan arolygwr y parciau eu bod yn peri consyrn Iechyd a Diogelwch, wedi'u tynnu i ffwrdd. Erbyn hyn mae'r cyfleusterau MUGA yn Llandybïe a Phenygroes heb rhwydi, gan gofio taw dim ond yn 2018 y cawsant eu hail-osod.

2) Roedd y Clerc wedi'i hysbysu bod arwydd wedi'i osod ger y mynediad i'r parc o Heol Gorsddu yn honni taw heol breifat yw'r heol fynediad, ac ni chaniateir mynediad anawdurdodedig i'r cyhoedd. Cyngor Cymuned Llandybïe sy'n berchen ar yr heol yn sgil y cytundebau Trosglwyddo Asedau, a chaniateir mynediad i gerddwyr ac i gerbydau y gwasnaethau brys. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at ddeiliad yr eiddo gan ofyn bod yr arwydd yn cael ei dynnu i ffwrdd.

Roedd y gât fynediad hefyd wedi'i fandaleiddio, ac roedd y Clerc wedi trafod y mater gyda gweithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin er mwyn iddynt ddelio â'r mater.

3) Roedd y ffens, a gytunwyd ei gosod fel rhan o'r gyllideb Datblygu Cymunedol ar gyfer 2020/2021, wedi'i chwblhau yn foddhaol gan gwmni MBP Fencing am y pris tendr o £8320 a TAW. Gyda chydysniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

ch) Pafiliwn bowlio a thenis Llandybïe

Roedd y Clerc wedi'i hysbysu na fyddai ardrethi annomestig yn cael eu codi ar yr adeilad hwn ar gyfer y flwyddyn 2020/2021, gan olygu arbediad o £2086.50 i'r Cyngor.

d) Ail-agor meysydd chwarae y plant

Roedd Llywodraeth Cymru wedi caniatáu i ardaloedd chwarae ail-agor o Orfennaf 20^{fed}, 2020, ac roedd y Clerc wedi ysgrifennu at yr holl Gynghorwyr ar Offennaf 14^{eg} i ofyn eu barn ynghylch ail-agor, a hynny'n amodol ar osod arwyddion addas a chadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd y mwyafrif o'r Cynghorwyr wedi ymateb, gan ddweud eu bod o blaid ail-agor.

Nid oedd Cyngor Cymuned Llandybïe yn gallu:-

- Darparu stiwardiaid i fonitro pob ardal chwarae
- Trefnu system fwcio
- Adleoli'r offer at ddiben pellhau cymdeithasol
- Glanhau'r offer yn ddyddiol
- Darparu cyfarpar glanhau

Roedd Cyngor Cymuned Llandybie wedi cymryd y camau canlynol ynghylch ail-agor yr Ardaloedd Chwarae:-

1. Wedi cynnal Asesiad Risg o bob ardal chwarae unigol
2. Cyn ail-agor yr ardaloedd chwarae, wedi gwirio'r holl safleoedd o safbwynt diogelwch
3. Wedi gosod arwyddion addas

Roedd y Cadeirydd hefyd wedi argymhell ail-agor cyrtiau Tennis Llandybie, ar yr amod bod arwyddion addas yn cael eu gosod a bod pobl yn cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Prynwyd arwyddion dweithog wedi'u gwneud o foamex cadarn oddiwrth Harcourt Print Limited, am bris o £163.20 a, gyda chydysniad y Cadeirydd, talwyd yr anfoneb.

Roedd y Cynghorwyr eisoes wedi'u hysbysu o'r gwaith cynnal a chadw a adnabuwyd fel rhan o'r arolygon beunyddiol o'r parciau, ac roedd y rhain wedi'u cwblhau yn foddhaol. Derbyniwyd anfonebau oddiwrth P Bishop am £500 ac oddiwrth M Jones am £1630.

Roedd yr arolygon mwyaf diweddar a gynhaliwyd ar Orffennaf 24^{ain}, 2020, wedi dangos bod 9 o'r parciau wedi'u categorio i fod o risg isel, gyda pharc Gorsddu yn risg canolig. Ni arolygwyd Parc Penybanc gan fod y gwaith ar y parc newydd ar fin dechrau.

Penderfynwyd cadarnhau ail-agor y parciau a'r cyrtiau tenis, ac i dalu'r anfonebau am yr arwyddion ac am gynnal a chadw'r parciau.

dd) Archwiliad Allanol 2019/20

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymestyn yr amser a ganiateir am archwiliad, ac wedi cyhoeddi canllawiau newydd i hysbysu Cynghorau y dylai cyfrifon blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd i'w harolygu o 1/9/20, ac am 28 diwrnod wedi hynny. Maen nhw hefyd wedi argymhell bod cyfrifon a datganiad blynyddol y Cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, ond bod angen cynnwys nodyn i hysbysu'r cyhoedd nad yw'r Cyngor wedi derbyn ei sgôr archwiliad blynyddol eto. Roedd y Clerc eisoes wedi gwneud hyn oll.

e) Treuliau'r Cynghorwyr

Roedd y taliadau a ganiateir yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi eu prosesu yn ystod mis Gorffennaf 2020.

f) Prydles Siambr y Cyngor a'r Swyddfa

Derbyniwyd anfoneb terfynol am £1100 am yr un ar ddeg mis sydd yn weddill o'r brydles gyfredol hyd at Dachwedd 30th, 2020. Nid oedd y Clerc eto wedi derbyn y manylion oddiwrth yr Eglwys yng Nghymru ynghylch amodau'r cytundeb prydles newydd, ond roedd wedi cael cadarnhad bod y materion hyn o dan drafodaeth, a bydd y Cyngor yn derbyn y manylion maes o law.

Penderfynwyd talu'r anfoneb..

ff) Cyfleusterau Cyhoeddus

Roedd yr Aelodau wedi trafod y posibilrwydd o ail-agor y cyfleusterau cyhoeddus yn Llandybïe a Phenygroes. Roedd y Clerc wedi arolygu canllawiau Llywodraeth Cymru ac fe fyddai'n bosib, drwy fabwysiadu'r pwyntiau canlynol, ystyried ail-agor y cyfleusterau :

- Cwtogi ar yr oriau agor – 10yb – 4yh
- Defnyddio tywelion papur
- Cyflenwi hylif diheintio dwylo
- Gwaghau'r biniau yn ddyddiol
- Glanhau a sychu pob arwynebedd yn ddyddiol.
- Cadw cofnod o'r gwiriadau dyddiol
- Lletemu prif ddrysau'r toiledau ar agor er mwyn lleihau'r pwyntiau cyswllt
- Glanhau pob ardal yn drwyadl cyn ail-agor
- Ymweliad gan Gydydffurffedd hsl i gadarnhau hylendid dŵr
- Defnyddio lliainiau / mopiau untro
- Arwyddion i hysbysu'r defnyddwyr na fydd y toiled yn cael ei staffio neu ei lanhau wedi pob defnydd, a bod y defnyddiwr yn defnyddio'r cyfleuster ar ei risg ei hun
- Arwyddion i atgoffa'r defnyddwyr am hylendid dwylo go-iawn, ac i'w hannog i olchi eu dwylo gyda sebon yn gyson, a'u sychu yn drwyadl
- Arwyddion i atgoffa'r defnyddwyr o'r rheoliau ymbellhau cymdeithasol cyfredol

Penderfynwyd y dylid ail-agor y cyfleusterau cyhoeddus yn amodol ar bod y pwyntiau gweithredu uchod yn cael eu gwireddu.

g) Torri'r glaswellt yng Nghorsddu

Roedd y glaswellt wedi'i dorri bob yn ddeufis drwy gydol yr haf ac roedd y Clerc wedi derbyn anfoneb am £360 oddiwrth Jeff's Tipper Hire am y cyfnod o fis Mawrth tan Orffennaf 2020.

Penderfynwyd talu'r anfoneb a dylai'r gwaith o dorri'r glaswellt/ talu'r anfonebau barhau tan Hydref 2020.

h) Clwb Rygbi Penygroes – cais am grant i osod ffens

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mr Neil Armstrong, Cadeirydd Clwb Rygbi Penygroes, i ofyn am grant o'r Cyngor i godi ffens ar y ffin rhwng y tir sydd yn eiddo i'r Cyngor a'r tir a berchnogir gan Glwb Rygbi Penygroes. Roedd Mr Armstrong yn cynnig gosod ffens banel 1.8 metr o uchder, yn debyg i'r un a godwyd gan y Cyngor ger y maes parcio dros y 2 flynedd ddiwethaf. Byddai hyn yn helpu lleihau'r broblem o gŵn yn baeddu ar y caeau chwarae ac hefyd y ail-osod y ffens stoc bresennol sydd, ar hyn o bryd, yn ffinio ar ardal o dir llethrog, a sydd angen ei hatgyweirio mewn manau.

Penderfynwyd y dylid ystyried gosod ffens newydd, ond bod uchder y ffens yn cael ei gwtogi i un metr yn unig, bod y clwb yn darparu cyfrifon masnachu cyfredol a bod y clwb yn cadarnhau ei fod wedi gwneud cais/ceisiadau i ffynonellau cyllido eraill fyddai'n gallu helpu

cyllido'r prosiect. Gofynnwyd bod y Clerc yn hysbysu Clwb Rygbi Penygroes o'r anghenion, ac yn adrodd yn ôl i'r Aelodau ynghylch y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

745.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Adroddodd y Clerc i'r biliau canlynol gael eu derbyn yn ystod mis Gorffennaf 2020 a, gyda chydsyniad y Cadeirydd, eu talu:

5210	EDF	MUGA Llandybie – Mehefin	£10.58
5211	EDF	Sied Fowlio Llandybie – Mehefin	£23.78
5212	EDF	Parc Capel Hendre - Mehefin	£10.58
5213	EDF	Pafiliwn Saron - Mehefin	£46.71
5214	EDF	Pafiliwn Llandybie - Mehefin	£21.45
5233	SSE Swalec	Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhenygroes 13/3/20 – 23/6/20	£33.20
5236	EDF	Parc Penygroes – Mehefin	£10.58
5237	SSE Swalec	Swyddaf a'r Siambr 14/4/20 – 7/7/20	£51.34
5239	MBP Phillips	Ffens ym Mharc Penygroes	£9984.00
5240	BT	Bil ffôn y Clerc 15/7/20 – 14/10/20	£121.70
5241	Harcourt Colour Print	Arwyddion Iechyd a Diogelwch dwyieithog Foamex i ail-agor y parciau	£163.20
5242	B Firm Pest Control	Cael gwared ar nyth cacwn ym mharc Heol Spien	£65.00

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:-

5215	S Griffith	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Gorffennaf 2020	£2191.56
5216	R Thomas	Cyflog, gan gynnwys lwfans defnydd tŷ fel swyddfa, Gorffennaf 2020	£635.60
5217	Cyllid y Wlad	Gorffennaf 2020	£1302.08
5218	Lwfans Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020/21	Cynghorydd Mrs A.E Evans	£150.00
5219	Lwfans Panel A C ar G A 2020/21	Cynghorydd A.W Jones	£120.00
5220	Lwfans Panel A C ar G A 2020/21	Cynghorydd B. Rees	£120.00
5222	Lwfans Panel A C ar G A 2020/21	Cynghorydd D. Hopkins	£120.00

Gorffennaf 29^{ain}, 2020

5223	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd D. Nicholas	£75.00
		2020/21	
5224	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd E.W. Nicholas	£120.00
		2020/21	
5225	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd Mrs J.E. Collins	£90.00
		2020/21	
5226	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd Mrs K.D. L Davies	£120.00
		2020/21	
5227	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd Mrs Ll. Latham	£120.00
		2020/21	
5228	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd N. Evans	£150.00
		2020/21	
5229	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd P.H Roberts	£120.00
		2020/21	
5230	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd Mrs S.E Thomas	£120.00
		2020/21	
5231	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd S J Roberts	£120.00
		2020/21	
5232	Lwfans Panel A C ar G A	Cynghorydd Mrs C. Thomas	£120.00
		2020/21	
5233	Cydymffurfedd hsl	Hylendid dŵr ym mhafiliwn Saron	£58.20
5234	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion ac	£200.15
		Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd	
5238	Cydymffurfedd hsl	Hylendid dŵr ym mhafiliwn	£62.54
		Llandybie	
5243	L Stamp	Cynnal a chadw'r llwybrau troed	£444.00
5244	Neuadd Eglwys y Plwyf,	Prydles ar y Swyddfa a'r Siambr	£1100.00
	Llandybie	1/1/20 – 30/11/20	
5245	Dynevor Tree Services	Clirio canghennau uwchben, a	£450.00
		thocio cloddiau pren cypres ym	
		mharc Penybanc	
5246	Dŵr Cymru	Toiledau Llandybie 10/1/20 –	£73.95
		21/7/20	
5247	Dynevor Tree Services	Cytundebau 1 a 4-9, cynnal a	£1905.00
		chadw'r llwybrau troed, toriad	
		cyntaf	
5248	Dynevor Tree Services	Clirio canghennau a oedd wedi	£870.00
		cwmpo ar 7 llwybr troed	
5249	Amman Heating Services	Cyflenwi a gosod thermostat a	£450.00
	Ltd	thwymwr tanddwr newydd ym	
		mhafiliwn Saron	
5250	P Bishop	Mân welliannau yn y parciau	£500.00
5251	M Jones	Gwaith cynnal a chadw (paentio)	£1630.00
		yn y parciau	
5252	Cydymffurfedd hsl	Hylendid dŵr – pafiliwn Saron	£58.20
5253	Jeff's Tipper Hire	Hylendid dŵr yn y toiledau –	£608.00
		Gorffennaf 2020 a thorri'r	
		glaswellt yng Ngorsddu, Ebrill –	
		Gorffennaf 2020	

5254	EDF	Y sied Fowlio – Gorffennaf	£28.26
5255	EDF	Pafiliwn Llandybie – Gorffennaf	£20.54
5256	EDF	Parc Capel Hendre - Gorffennaf	£9.88
5257	EDF	MUGA Llandybie	£9.88

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau hyn, ynghyd â'r rhai a gytunwyd arnynt gan y Cadeirydd.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol - Ebrill 1/4/20 hyd at 30/6/20

2020/21	Gwariant		
Amcangyfrif	gwirioneddol		
£	hyd yn hyn		
£	£		
180,000	60,000	Praesept	
150	29	Llog: Lloyds	
400	0	Llog: cyfrifon buddsoddi	
		Hawliau Tramwy	
3000	3,000	Cyhoeddus	
4700	0	Cytundebau Llogi	
<u>188,250</u>	<u>63,029</u>		
45,889	11,083	Staffio	
		Tir ac	
17,650	4,429	adeiladau	
4,750	1,724	Gwasanaethau Swyddfa	
3,100	300	Costau'r Aelodau	
10,000	1,487	Gwasanaethau a Thanysgrifiadau	
	1,200	Adran 137	
}	0	Taliadau yn unol â phwerau eraill	
	0	Mannau agored	
	0	Neuaddau pentref	
	0	Claddfeydd	
	230	Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	
10,000	0	Hawliau Tramwy – gwelliannau	
		Torri glaswellt/ sbwriel/	
28,000	0	cyfleusterau	
		Atgyweirio ac amnewid yn y	
50,000	2,320	parciau	
}	0	Goleuo cyhoeddus - ynni	
	0	Goleuo cyhoeddus - gwelliant	
8,500	0	Goleuo cyhoeddus - gwelliant	
28,000	840	Datblygu Cymunedol	
13,000	504	Cyfleusterau Cyhoeddus	
<u>236,889</u>	<u>24,117</u>		
	38,912	Balans am y flwyddyn (cyfnod)	
	337,001	d/y	
<u>0</u>	<u>375,913</u>	c/y	

Gorffennaf 29^{ain}, 2020

	Arian parod a
374,641	buddsoddiadau
1,272	Dyledwyr
0	Credydwyr
<hr/>	
375,913	
<hr/> <hr/>	

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd unrhyw gwestiynau neu sylwadau.
Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

(iii) Cysoniad arian parod hyd at 30/6/20

Cynhaliwyd y cysoniad arian parod chwarterol gan y Cynghorydd E.W. Nicholas ar Orffennaf 3^{ydd}, 2020. Ni amlygwyd unrhyw faterion o gonsyrn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

746.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Nid oedd dim i'w gofnodi.

747.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Fedi 30^{ain} 2020, onibai bod y Cadeirydd a'r Clerc o'r farn bod angen cynnal cyfarfod yn ystod wythnos gyntaf mis Medi, 2020, i drafod materion busnes brys

748.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.00 yh.